# Briff ar amgylchedd polisi a chyfreithiol Cymru

## Papur briffio i Gadeiryddion

## Cyflwyniad

Un o rolau allweddol ymddiriedolwyr a Chadeiryddion yw deall y cyd-destun y mae eich elusen yn gweithredu ynddo. Os yw'r elusen yr ydych yn ei chadeirio'n gweithredu yng Nghymru (un ai'n llwyr neu fel rhan o weithgarwch aml-wlad) mae angen ichi fod yn ymwybodol o ystyriaethau gwlad-benodol er mwyn sicrhau gweithrediadau effeithiol yng Nghymru. Mae hyn o ganlyniad i sefydlu Senedd Cymru (a grëwyd yn wreiddiol fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999) a Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am nifer o feysydd, yn cynnwys amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota, addysg, yr amgylchedd, gofal iechyd a chymdeithasol, tai, llywodraeth leol, priffyrdd a thrafnidiaeth, y Gymraeg, rhywfaint o dreth incwm, treth stamp a'r dreth dirlenwi.

Yn dilyn refferendwm yn 2011 rhoddwyd pwerau pasio deddfwriaeth sylfaenol i Gymru, sy'n golygu y gall y Senedd basio deddfau heb fod angen caniatâd oddi wrth Lywodraeth y DU. Mae hyn wedi arwain at basio deddfau allweddol sy'n effeithio'n unigryw ar Gymru. Mae creu deddfwriaeth sy'n benodol i Gymru wedi ei gyflymu oherwydd, am y mwyafrif o'i hoes, mae rheolaeth wleidyddol Llywodraeth Cymru wedi bod yn wahanol i'r rheolaeth wleidyddol yn San Steffan. Mae'r papur briffio hwn yn tynnu sylw at rai o'r deddfau allweddol sy'n bwysig bod yn gyfarwydd â nhw.

## Deddfau a chynlluniau Cymreig allweddol

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymrwymo Llywodraeth Cymru, a 48 o'r cyrff cyhoeddus y mae'n eu rheoli, i feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Yn ymarferol, mae'n effeithio ar grŵp llawer ehangach o sefydliadau yn cynnwys rhai nad ydynt yn gwneud elw.

Mae'r Ddeddf yn unigryw i Gymru ac yn denu diddordeb o wledydd ledled y byd gan ei bod yn cynnig cyfle aruthrol i wneud newid cadarnhaol, parhaol i'r genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Fel rhan o'r Ddeddf gwelwyd creu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (gyda swyddfa gymorth) sy'n warcheidwad i genedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn golygu cynorthwyo cyrff cyhoeddus a phobl sy'n llunio polisïau yng Nghymru i feddwl am yr effaith hirdymor gaiff eu penderfyniadau. Ceir mwy o fanylion yma – https://www.futuregenerations.wales/cy

Mae'r Ddeddf yn dynodi 7 nod llesiant ar gyfer Cymru, ac mae'n mynnu y dylai pob corff cyhoeddus bennu, ac adolygu, amcanion llesiant er mwyn helpu i gyflawni'r nodau hyn.

Y saith nod llesiant yw –

1. **Cymru lewyrchus** – Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, a charbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
2. **Cymru gydnerth** – Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd).
3. **Cymru iachach** – Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deëllir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
4. **Cymru sy'n fwy cyfartal** – Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (yn cynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).
5. **Cymru o gymunedau cydlynus** – Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
6. **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** – Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
7. **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** – Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) hefyd yn ymrwymo cyrff cyhoeddus i fabwysiadu'r pum dull o weithio:

1. **Hirdymor** – pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.
2. **Integreiddio** – ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
3. **Cynnwys** – pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff cyhoeddus yn ei gwasanaethu.
4. **Cydweithio** – cydweithredu gydag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) allai helpu'r corff cyhoeddus i fodloni ei amcanion llesiant.
5. **Atal** – sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

Mae'r Ddeddf yn un bellgyrhaeddol sy'n dylanwadu ar wasanaethau a gomisiynir, asesiadau o anghenion y boblogaeth, cynlluniau cyflenwi cyrff cyhoeddus a chyllido gwirfoddol trwy'r Loteri Genedlaethol ac ymddiriedolaethau a sefydliadau eraill. Mae hyn yn golygu, er nad ydynt yn gyrff cyhoeddus, bod sefydliadau nad ydynt yn gwneud elw yn cael eu heffeithio gan y Ddeddf. Mae egwyddorion y Ddeddf yn cael eu dysgu mewn ysgolion, yn enwedig fel

rhan o'r Cwricwlwm Newydd i Gymru (o hydref 2022), sy'n golygu bod dinasyddion Cymru'n ymwybodol iawn o'r Ddeddf.

Mae'r Cwricwlwm Newydd yn golygu hefyd, o 2022, na fydd disgyblion oed ysgol ledled Cymru'n dilyn yr hen Gwricwlwm Cenedlaethol i Gymru. Mae'r dysgu'n symud oddi wrth addysgu rhagnodedig, gyda phob ysgol yn dylunio ei chwricwlwm ei hun i gyflawni pedwar diben –

1. dysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
2. cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
3. dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd
4. unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Mae hyn i'w drosglwyddo ar draws chwe maes dysgu a phrofiad –

1. Y Celfyddydau Mynegiannol
2. Iechyd a Llesiant
3. Dyniaethau
4. Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
5. Mathemateg a Rhifedd
6. Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Ceir mwy o fanylion yma – https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/amser-gweithredu-cyflwyno-r-cwricwlwm-newydd-o-fis-medi-ymlaen/ – ac mae'n amlwg bod hyn yn effeithio ar unrhyw sefydliad sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

**Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cyhoeddwyd Safonau'r Gymraeg gan Gomisiynydd y Gymraeg. Maent yn gyfres o ofynion sy'n rhwymo mewn cyfraith sy'n gymwys i Lywodraeth Cymru (ac, o ganlyniad, i'r cyrff cyhoeddus y mae'n eu rheoli) ers 30 Mawrth 2016**.**

Mae hyn yn cefnogi blaenoriaeth Llywodraeth Cymru a amlinellwyd yn y ddogfen Cymraeg 2050, i gynyddu'r nifer o bobl sy'n siarad a defnyddio'r Gymraeg i filiwn o bobl erbyn 2050.

Er nad yw sefydliadau nid-er-elw yn gyrff cyhoeddus, mae nifer yn derbyn cyllid neu atgyfeiriadau oddi wrth gyrff cyhoeddus. Mae hyn, ynghyd â'r disgwyl cynyddol y gall pobl ddefnyddio eu dewis iaith, yn golygu bod angen i bob sefydliad nid-er-elw ystyried sut y byddant yn defnyddio'r Gymraeg mewn cyfathrebiadau mewnol ac allanol.

**Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023**

Wrth ysgrifennu'r ddogfen hon (Medi 2023), mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r term sector gwerth cymdeithasol (sy'n cynnwys elusennau, mentrau cymdeithasol, cymdeithasau a grwpiau heb eu cofrestru), yn amlach. Mae hyn yn alinio gyda Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) sy'n cael ei gweithredu ar hyn o bryd, wedi ei

chadarnhau'n ddeddf ym mis Mai 2023. Mae hon yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol (fel yr hyn a welwyd eisoes gyda'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n gofyn i 20% o wariant gael ei wario yn y sector gwerth cymdeithasol). Ar lefel awdurdod lleol, mae gofyn sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol fydd yn ymgysylltu gyda'r Trydydd Sector / Sector Gwerth Cymdeithasol.

Yn unol â hyn, tynnodd Swyddfa Archwilio Cymru sylw, ddechrau 2023, at y ffaith bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn methu cyfle i weithio gyda'r sector gwerth cymdeithasol, ac argymhellwyd camau gweithredu ar sut y gallai awdurdodau lleol Cymru gefnogi'r sector, yn benodol trwy hyrwyddo entrepreneuriaeth gymdeithasol sy'n gysylltiedig â chefnogi deilliannau'r sector cyhoeddus.

**Cynllun y Trydydd Sector**
Mae hwn yn ddarn o ddeddfwriaeth statudol a ddyluniwyd i drosglwyddo partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r Sector **Menter Gymdeithasol, Gymunedol a Gwirfoddol** (VCSE) fydd yn arwain at:

- Gymunedau cryfach mwy cydnerth
- Gwell polisi
- Gwell gwasanaethau cyhoeddus

Trwy'r Cynllun, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i wasanaethau cyhoeddus, Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd, y llywodraeth a'r Sector VCSE weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth. Maent yn ail-ddweud bod rhaid i bartneriaethau effeithiol fod yn seiliedig ar werthfawrogiad o gyfraniad unigryw pob parti. Ceir cydnabyddiaeth hefyd bod y Trydydd Sector (yn cynnwys VCSEs) yn rhan annatod o ddatblygiad polisi a helpu i lunio gwasanaethau i ateb anghenion poblogaeth Cymru.

Mae Cynllun y Trydydd Sector yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i:

- Gynnal trefniadau ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori ystyrlon â'r Trydydd Sector (Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yw'r prif gyfrwng ar gyfer hyn)
- Cynnal trefniadau ar gyfer cefnogi cymunedau a gwirfoddolwyr
- Cynnal trefniadau ar gyfer cynnal seilweithiau sy'n galluogi'r Trydydd Sector i ffynnu ac
- Ymdrechu i lynu wrth y Côd Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector

Mae'r Cynllun yn amlinellu'r trefniadau ffurfiol ar gyfer ymgysylltu ar draws pum maes:

- Dialog a Chydweithredu
- Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (TSPC)
- Cyfarfodydd Gweinidogion
- Ymgynghoriadau
- Cyfranogaeth y Trydydd Sector mewn Datblygu Polisi

Mae gan Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector rôl allweddol i'w chwarae o ran cydweithredu rhwng cyrff cyhoeddus, llywodraethau lleol a Llywodraeth Cymru, a'r Sector VCSE. Mae'n ystyried materion sy'n ymwneud ag amcanion strategol Llywodraeth Cymru ac

yn hwyluso ymgynghori gyda sefydliadau perthnasol o'r Sector VCSE a chyrff sector cyhoeddus ar gyflwyniad, gweithrediad, ac adolygiad y Cynllun.

O dan y Cynllun hwn, mae Gweinidogion yn ymrwymo i ymgysylltu gyda'r Sector VCSE mewn amrywiol ffyrdd yn cynnwys ymweliadau, sgyrsiau sy'n seiliedig ar faterion penodol, cynadleddau, a thrwy ohebiaeth. Mae'r Cynllun hefyd yn cydnabod pwysigrwydd ymgynghori gyda'r Sector VCSE yng nghyd-destun datblygu polisi ac ymgynghoriadau, gan sicrhau y gall y sector hysbysu a llunio gwasanaethau.

Mae Cynllun y Trydydd Sector a'r Cyngor Partneriaeth yn cynnig cyfle gwerthfawr i ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus mewn perthynas â gwirfoddoli mewn argyfwng. Mae'r Fframwaith Strategol yn alinio'n agos gyda'r egwyddorion a amlinellir yn y Cynllun, ac yn cyfrannu at 'Gymunedau cryfach mwy cydnerth', 'Gwell polisi' a 'Gwell gwasanaethau cyhoeddus', gan arddangos gweithio partneriaeth ar draws sectorau.

Mae hyn yn cysylltu sefydliadau nid-er-elw ymhellach gyda'r gwaith o weithio tuag at drosglwyddo nodau Llesiant Cymru.

Ceir manylion llawn y cynllun yma –
https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-01/cynllun-y-trydydd-sector-2014_0.pdf

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**
Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym ar 6 Ebrill 2016.
Mae'r Ddeddf yn rhoi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cefnogaeth, ac i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Egwyddorion
Egwyddorion sylfaenol y Ddeddf yw:
- *Llais a rheolaeth* – rhoi'r unigolyn a'u hanghenion, wrth wraidd eu gofal, a rhoi llais a rheolaeth iddyn nhw er mwyn cyrraedd y canlyniadau sy'n eu helpu i sicrhau llesiant.
- *Atal ac ymyrryd yn gynnar* – cynyddu gwasanaethau ataliol yn y gymuned er mwyn lleihau'r cynnydd i anghenion brys.
- *Llesiant* – cynorthwyo pobl i greu eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth.
- *Cyd-gynhyrchu* – annog unigolion i gymryd mwy o ran mewn cynllunio a throsglwyddo gwasanaethau.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt weithio i hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, neu ofalwyr sydd angen cymorth.

Rhan 7 diogelu
Mae diogelu yn un o themâu trosfwaol y Ddeddf. Gellir gweld y manylion o dan Ran 7.

Mae'r Ddeddf yn atgyfnerthu trefniadau diogelu cyfredol ar gyfer plant drwy gyflwyno dyletswydd newydd ar bartneriaid statudol, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau a gomisiynir neu a gyllidir, i adrodd am unrhyw 'blentyn sy'n wynebu risg' i'r awdurdod lleol.

Caiff 'oedolyn sy'n wynebu risg' hefyd ei ddiffinio o fewn y Ddeddf. Mae gofyniad ar awdurdod lleol i ymchwilio ble mae'n amau bod oedolyn ag anghenion gofal a chymorth yn wynebu risg o gam-drin neu esgeulustod. Cyflwynir gorchmynion amddiffyn a chynorthwyo oedolyn er mwyn awdurdodi mynediad i eiddo at y diben o alluogi swyddog awdurdodedig i asesu a yw oedolion yn wynebu risg o gam-drin neu esgeulustod ac, os felly, pa gamau ddylid eu cymryd, os o gwbl.

Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer plant ac oedolion sydd mewn perygl o gamdriniaeth ac esgeulustod.
Y rhain yw'r Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol i Gymru. Maent yn rhestru'r swyddogaethau a chyfrifoldebau hanfodol i ymarferwyr er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o ddioddef camdriniaeth ac esgeulustod.

## Cyflenwi Gwasanaethau sy'n Canolbwyntio ar y Lleoliad / Person

Mae deddfwriaethau a'u cyfarwyddyd cysylltiedig a pholisïau'n eiriol yn gynyddol dros gyflenwi gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y person / canolbwyntio ar y gymuned. Mae'r gofyniad hwn yn bellgyrhaeddol, o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a chynlluniau cyflenwi cyrff cyhoeddus a chynghorau tref a chymuned.

Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd sicrhau bod Cadeiryddion yn arwain Byrddau sydd wir yn ystyried anghenion y bobl a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, trwy gynrychiolaeth briodol yn y broses llunio penderfyniadau a chynllunio.

Medi 2023

Gyda diolch i Richard Newton am baratoi'r papur briffio hwn ac i eraill gyflwynodd eu sylwadau, yn cynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.